



monmouthshire  
sir fynwy

# CYNLLUN CORFFORAETHOL

## Adroddiad Blynyddol 2018/2019

Ein diben yw adeiladu cymunedau cynaliadwy a chryf sy'n cefnogi llesiant y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn greiddiol i'n holl waith i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy. Rydym yn rhannu'r diben hwn gyda'n partneriaid fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y sir. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn dynodi'r pethau a wnawn fel cyngor i gyflawni hyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn disgrifio peth o'r cynnydd a wnaethom yn ystod 2019/19 a rhoddir crynodeb ohono yn y daflen yma.

Rhoddir manylion y pum blaenoriaeth a osodwyd ar gyfer Sir Fynwy yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022 islaw, ynghyd â diweddariad byr o gynnydd dros y 12 mis diwethaf.



[www.monmouthshire.gov.uk/improvement](http://www.monmouthshire.gov.uk/improvement)



[improvement@monmouthshire.gov.uk](mailto:improvement@monmouthshire.gov.uk)



[@MonmouthshireCC](https://twitter.com/MonmouthshireCC)

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



## NOD A: Y DECHRAU GORAU POSIBL MEWN BYWYD



**65** gofalwr maeth  
yn darparu cartrefi  
ar gyfer plant a phobl ifanc

**45%** o ddisgyblion  
yn cymryd rhan mewn  
chwaraeon dair gwaith  
neu fwy yr wythnos



Agorodd yr ysgol newydd yn Nhrefynwy ym mis Medi 2018 ac ailagorodd Canolfan Hamdden Trefynwy yn llawn ym mis Chwefror 2019. Derbyniodd disgyblion ysgolion cynradd Gwrs Sports Leaders UK i hyrwyddo agwedd gadarnhaol at chwaraeon a chymerodd 16 ysgol ran yn y Filtir Dyddiol. Denodd Gemau Sir Fynwy 4,199 o fynychwyr.

Cafodd gwasanaethau cymdeithasol plant eu cydlynu drwy'r cynnig 'Adeiladu Teuluoedd Cryfach'. Mae Panel Cymorth Cynnar yn sicrhau fod teuluoedd yn cael y gefnogaeth iawn pan maent ei hangen, a chafodd Tim Ymyl Gofal ei greu i gefnogi teuluoedd, fel y gall plant aros adref. Mae ymgyrch recriwtio i gynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol wedi gweld y nifer yn cynyddu o 51 i 65.

## NOD B: SIR SY'N FFYNNU A GYDA CHYSYLLTIADAU DA



**80.1%**  
o safleoedd â mynediad i  
fand eang cyflym



**£218.9** miliwn wedi'i  
gynhyrchu o dwristiaeth yn 2018

Cafodd y prosiect band eang cymunedol gwledig ei gwblhau, gyda hyd at 500 safle bellach wedi cysylltu. Mae gormod o fusnesau a chartrefi yn dal i fod heb fynediad i gysylltiad cyflym ac rydym yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

Lansiwyd cystadleuaeth yn Sir Fynwy, a ariannwyd gan £1.25m gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, i ddynodi datrysiadau posibl i unigrwydd a chludiant gwledig. Derbyniodd dau gwmni gyllid i roi eu cynigion ar waith.

Daeth 2.24 miliwn o ymwelwyr i Sir Fynwy yn 2018, gan gyfrannu'n sylweddol at economi'r Sir.

## NOD C: CYNYDDU POTENSIAL YR AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

**63.37%** o wastraff wedi ei ailgylchu ailddefnyddio neu gompostio



**9.9%** o ostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid y Cyngor

Dechreuodd casgliadau gwastraff ac ailgylchu newydd ym mis Mawrth i wella gwasanaethau a lleihau costau. Effeithiodd casgliadau a gollwyd ar rai preswylwyr a gwnaed gwaith i drin hyn. Mae canran y gwastraff a ailgylchwyd wedi gostwng am ail flwyddyn, gan ddisgyn dan darged Llywodraeth Cymru o 64%.

Fel canlyniad i weithio gyda'r gymuned i ddeall mwy am newid hinsawdd, mae'r cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi creu cynllun gweithredu i ddechrau trin hyn.

Datblygwyd Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Fynwy, sy'n nodi cynllun gweithredu i wneud priffyrdd Sir Fynwy yn fwy diogel i bawb sy'n eu defnyddio.

## NOD D: LLESIANT GYDOL OES



**54%** o bobl ar y cynllun atgyfeirio ymarfer yn dal yn egniol ar 16 wythnos

**1,360**  o wirfoddolwyr yn cael cefnogaeth uniongyrchol

Caiff y gwasanaeth Gofal Gartref, sy'n cefnogi pobl hŷn gydag anabledau, ei aifodelu i alluogi staff i ganolbwyntio ar ofal seiliedig ar berthynas, gan weithio'n fwy hyblyg gyda phobl yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Ymarfer Sir Fynwy, lle gall meddygon teulu atgyfeirio pobl at ein gwasanaethau hamdden, wedi dathlu ei ddegfed pen-blwydd yn ddiweddar. Mae wedi helpu dros 10,000 o bobl yn y sir ers ei sefydlu.

Mae rhaglen wirfoddoli newydd, 'Sir Fynwy: Sir sy'n Gwasanaethu' yn helpu i gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y sir.

# NOD E: CYNGOR SY’N CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL



**9,441** ymholiad  
wedi'u derbyn gan Monty  
y Sgyrsfot ym mis Mawrth



**£150** miliwn  
wedi'u gwario yn  
darparu gwasanaethau

Cafodd Monty, sgyrsfot y Cyngor, ei lansio ym mis Chwefror 2019. Mae ar gael ar y wefan a Facebook Messenger, ac mae'n ehangu'r ffyrdd y gall preswylwyr ddod i gysylltiad.

Datblygwyd drafft strategaeth sy'n anelu i ddatblygu prentisiaethau, swyddi i raddedigion a chyfleoedd intern er mwyn darparu cyfleoedd gyrfa ar gyfer pobl yn yr ardal.

Sir Fynwy sy'n derbyn y lefel isaf o gyllid awdurdodau lleol yng Nghymru felly mae angen i ni feddwl yn wahanol i sicrhau y gallwn gynnal gwasanaethau lleol pwysig. Rydym wedi datblygu strategaeth fasnachol fydd yn cynyddu ein cynhyrchu incwm a datblygu portffolio buddsoddi, fydd yn helpu i gyllido rhai o'n gwasanaethau craidd.

## CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Rydym bron hanner ffordd drwy gyfnod y Cynllun Corfforaethol felly mae'n bwysig gwirio ein cynnydd a phenderfynu os ydym yn dal i fod ar y llwybr cywir. Nid ydym yn rhagweld y bydd yr adolygiad yn arwain at newidiadau enfawr; wedi'r cyfan, cafodd ein nodau eu penderfynu yn bennaf drwy ymgysylltu gyda chymunedau Sir Fynwy ac nid oes gennym unrhyw ddymuniad i symud ymaith o'r pethau sy'n amlwg yn bwysig i chi, ein preswylwyr.

Bydd adolygu i ba raddau yr ydym wedi cyflawni ein nodau yn ein galluogi i benderfynu pa waith sydd ar ôl, a hefyd i ddynodi lle mae pethau wedi newid ac mae angen i ni felly addasu ein ffocws.

Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol wedi'i adolygu yn ddiweddarach eleni.